



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad Blynyddol 2021/22

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

This report is available in English.

© Hawlfraint y Goron 2022 – Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk. Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn cysylltiad â'r cyhoeddiad hwn atom i: ymholiadau@fffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan: <https://cfdl.llyw.cymru>

Cynnwys

Pennod 1	Rhagair	04
Pennod 2	Cyflwyniad	06
Pennod 3	Amcanion	09
Pennod 4	Canlyniadau	11
Pennod 5	Cyllideb a Gwariant	12
Pennod 6	Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23	14



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynvddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22.

Roedd y prif weithgareddau yn ystod 2021-22 yn canolbwyntio ar gamau cychwynnol Adolygiad 2023.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Cynnig Cychwynnol ar 08 Medi 2021 a chynhaliodd ymgynghoriad 8 wythnos a ddaeth i ben ar 03 Tachwedd 2021. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori eilaidd 6 wythnos rhwng 17 Chwefror 2022 a 30 Mawrth 2022 a chynhaliwyd gwrandawriadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Bydd y sylwadau a gafwyd yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori, ynghyd ag argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol yn llywio ystyriaethau'r Comisiwn ar gyfer ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022.

Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Jefford DBE

Dirprwy Gadeirydd



Cyflwyniad

Y Noddwr

1.1 Corff Cyhoeddus Anadrannol cyngorol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn (gweler yr Aelodaeth isod).

Y Comisiwn

1.2 Mae'r Comisiwn wedi ei sefydlu o dan adran 2 ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n gorff annibynnol, anwleidyddol, a chwbl amhleidiol. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni chaiff effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol eu hystyried.

1.3 O 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC)¹, a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau hefyd. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd.

Aelodaeth

1.4 Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd *ex-officio* pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Llefarydd yn pwysleisio

¹ Newidiwyd yr enw o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

annibyniaeth, amhleidioldeb, a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Llefarydd yn cyfrannu o gwbl at gynnal adolygiadau. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: sef yr Anrhydeddus Mrs Ustus Jefford. Yr Aelodau yw Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam Hartley (y ddau wedi'u penodi o 05 Hydref 2020).

1.5 Caiff y Comisiynwyr eu penodi'n rhan-amser a byddant yn cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn gofyn am hynny. Talwyd ffi ddyddiol i Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd) a gytunwyd arni gan yr Adran Nawdd gyda Thrysorlys EM, ar gyfer gwaith a wneir ar ran y Comisiwn ac ynghyd â'r Dirprwy Gadeirydd, mae ganddynt yr hawl i adennill unrhyw dreuliau (megis teithio a chynhaliaeth) a wariwyd wrth wneud gwaith i'r Comisiwn.

1.6 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.

1.7 Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un ohonynt yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Cenedlaethol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans. Cynrychiolir y ddau gan ddirprwyon dynodedig yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

1.8 Mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn. O dan drefniadau'r Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, mae'r Ysgrifennydd, Mrs Shereen Williams MBE OStJ DL hefyd yn Brif Weithredwr CFfDLC.

1.9 Swyddogaeth yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth iddynt gynnal eu hadolygiadau a gwneud eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi'i lleoli yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth CFfDLC yng Nghaerdydd a chysylltir â Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru ynghylch staffio ac adeiladau. Mae'r berthynas waith hon yn dod o dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau Gomisiwn a'u cyrff noddi priodol.

Dyletswyddau statudol

1.10 Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal adolygiadau rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

1.11 Gwnaeth Deddf Etholaethau Seneddol 2020 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol.

1.12 Hefyd, dynododd y Ddeddf etholaeth Ynys Môn yn etholaeth warchodedig, cyflwyno'r rheol 'awtomatigrwydd' ar weithredu argymhellion y pedwar Comisiwn Ffiniau a gwneud newidiadau i'r broses ymgynghori.

Amcanion

Amcan Cyffredinol

2.1 Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus.

Amcan Penodol ar gyfer 2021/22

2.2 Dyma oedd yr amcanion ar gyfer y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22:

- Datblygu a chyhoeddi porth ymgynghori ar-lein er mwyn caniatáu sylwadau ar Gynigion Cychwynnol adolygiad etholaethau Seneddol 2023;
- Sicrhau penodi nifer addas o Gomisiynwyr Cynorthwyl i gynorthwyo'r Comisiwn yn ei waith, yn enwedig mewn cysylltiad â chadeirio gwrandawiadau cyhoeddus ac asesu ymatebion i gynigion y Comisiwn ar gyfer etholaethau newydd;
- Datblygu cynigion cychwynnol ar gyfer cyhoeddi etholaethau newydd ym mis Medi 2021;
- Cyhoeddi pob copi caled a dogfennau electronig ar gyfer cyhoeddi'r cynigion cychwynnol;
- Cynnal dau ymgynghoriad statudol cynhwysfawr ar y cynigion cychwynnol, un cyfnod ymgynghori 8 wythnos ac ymgynghoriad 6 wythnos arall a fydd yn cynnwys y gwrandawiadau cyhoeddus gofynnol;
- Paratoi a chyhoeddi'r holl ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf ar gynigion cychwynnol;
- Paratoi adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2020-21 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn;

- Rhoi diweddariad i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ar y gwaith a wnaed gan y Comisiwn ym mlwyddyn gyntaf Adolygiad 2023;
- Parhau gyda gweithgareddau ac argymhellion yn deillio o'r adolygiad o Adolygiad 2018 a'i ymgorffori fel rhan o Adolygiad 2023.

Safonau'r Gymraeg

2.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd yr holl ddogfennau swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Canlyniadau

Cyfarfodydd

3.1 Bu 6 cyfarfod o'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Canolbwynt y cyfarfodydd oedd cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad ar y Cynigion Cychwynnol, cydlynu'r cyfnodau ymgynghori cychwynnol ac eilaidd yn ogystal â'r gwrandawiadau cyhoeddus. Cymerodd y Comisiwn ran yng nghyfarfod blynyddol Comisiynau Ffiniau'r DU ym mis Ionawr 2022 a gynhaliwyd drwy gyfrwng Microsoft Teams.

Y Gymraeg

3.2 Cafodd adroddiad blynyddol y Comisiwn ar weithredu Safonau'r Gymraeg ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar-lein.

Hyfforddiant

3.3 Mae cyrsiau hyfforddiant hanfodol y mae'n ofynnol i aelodau'r staff gymryd rhan ynddynt ac er budd datblygiad personol wedi parhau eleni ac maent yn cynnwys: cwrs Datblygiad Personol 1 diwrnod gan *Insights* i'r holl staff, cwrs Cymraeg i ddechreuwyr, hyfforddiant ar Gydnerthedd ar-lein a Choetsio.

COVID-19

3.4 Yn ystod 2020-21, sefydlodd y Comisiwn system Gweithio Gartref gadarn ar gyfer yr holl staff a datblygodd weithdrefnau digidol newydd i gymryd lle y rhai papur er mwyn sicrhau parhad busnes yn ystod cyfyngiadau pandemig COVID-19. Parhaodd y Comisiwn i ddilyn canllawiau a chyfyngiadau COVID-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Parhaodd staff i

weithio gartref yn ystod cyfnodau cyfyngiadau symud llawn gyda chynllun i nifer fechan o staff ddychwelyd i weithio yn y swyddfa, ar sail rota yn rhannol, yn ystod cyfnodau pan y llaciwyd y cyfyngiadau.

Gwybodaeth

3.5 Mae'r Comisiwn yn trefnu bod cymaint o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ag sy'n ymarferol drwy'r wefan (www.comffin-cymru.gov.uk). Ymatebir i geisiadau am wybodaeth nad yw ar gael ar y wefan. Mae'r Comisiwn wedi gosod targed o 20 diwrnod ar gyfer ymateb i geisiadau o'r fath. Yn 2021-22 cafodd y Comisiwn 10 cais am wybodaeth a chawsant i gyd ymateb o fewn 20 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â 5 cais a gafwyd yn 2020-21.

Cyllideb a Gwariant

Gwariant mis Ebrill 2021 hyd at fis Mawrth 2022

4.1 Mae Tabl 1 yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw yn yr adroddiad hwn.

Tabl 1 - Cyllideb a Gwariant 2021-22

Elfen Gyllideb	Cyllideb (£)	Gwirioneddol (£)
Cyflogau Staff	393,000	343,654
Ffioedd Comisiynwyr	50,500	53,766
Adeilad a Swyddfa	40,550	33,539
Teithio a Chynhaliaeth	23,400	8,308
Lletygarwch	1,700	514
TG a Thelegyfathrebu	76,650	40,588
Costau Eraill Adolygiadau*	227,200	228,037
Cyfanswm	813,000	708,406

*yn cynnwys cyfryngau a hysbysebu, hyfforddiant, postio, argraffu a chyfieithu.

- 4.2 Mae Tabl 1 yn dangos bod y Comisiwn Ffiniau wedi tanwario £104,594 o'i gyllideb ar gyfer 2021-22. Roedd cyflogau staff yn is na'r amcangyfrif oherwydd bod costau staff yn gyffredinol yn llai na'r amcangyfrif yn sgil ymadawiad aelod o staff yn gynnar yn y flwyddyn. Roedd ffioedd Comisiynwyr yn fwy na'r amcangyfrif oherwydd bod ffioedd y Comisiynwyr Cynorthwyol am gynnal y gwrandawiadau cyhoeddus ychydig yn fwy na'r amcangyfrif. Roedd ffioedd Teithio a Chynhaliaeth yn llai na'r amcangyfrif oherwydd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell. Yn gyffredinol roedd costau Llety a TG CFfDLC yn llai na'r amcangyfrif gan arwain at gostau is yn cael eu dyrannu i wariant y Comisiwn Ffiniau.

Ffioedd a Threuliau Aelodau

- 4.3 Yn ystod 2021-22 hawliwyd y ffioedd a'r treuliau canlynol gan Aelodau'r Comisiwn:

Aelod	Ffioedd £	Treuliau £
Mr H V Thomas	7,077	163
Mr S Hartley	3,539	0

Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23

5.1 Amcanion penodol y Comisiwn yn 2022/23 fydd:

- Cyhoeddi'r holl sylwadau a gafwyd yn y cyfnod ymgynghori eilaidd a thrawsgrifiadau'r gwrandawiaidau cyhoeddus
- Ystyried y sylwadau a gafwyd ac argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol i ddatblygu'r Adroddiad Cynigion Diwygiedig i'w gyhoeddi yn Hydref 2022;
- Cyhoeddi pob copi caled a dogfennau electronig ar gyfer cyhoeddi'r cynigion diwygiedig;
- Cynnal ymgynghoriad 4 wythnos ar yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig;
- Ystyried yr holl sylwadau a gafwyd a datblygu'r Adroddiad Argymhellion Terfynol;
- Paratoi adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-22 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn;
- Rhoi diweddariad i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ar y gwaith a wnaed gan y Comisiwn yn ail flwyddyn Adolygiad 2023.

Cyllideb

- 5.2 Er mwyn cyflawni'r amcanion a restrir yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £565,070 i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.





Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, negeseuon e-bost a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. I gysylltu â'r Comisiwn, ysgrifennwch at:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan,
Caerdydd, CF24 0BL

Ffôn: +44 (0)29 20464819
Ffôn: +44 (0)29 21055521
E-bost: ymholiadau@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron
2022